

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Medi 12, 2017 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, John Hughes, Llinos Williams, Gareth Ellis, Carwyn Evans, Paul Williams. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a rhoddwyd croeso arbennig i Paul Williams fel Cyngorydd newydd i'r Cyngor.

**1. Ymddiheuriadau:** Gethin Williams.

**2. Datgan diddordeb:**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 11, 2017**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 11, 2017**

Eitem 11.c. Llythyr ateb (19/7/2017) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod nid yw'r coed yn amharu ar welededd i'r gyffordd o gyfeiriad Tywyn. Mae coed yn amharu ar welededd allan o'r maes parcio i'r A493 ac felly maent wedi rhoi gwybod am hyn i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd.

Eitem 11.dd. Llythyr ateb (19/7/2017) oddi wrth Peredur Jenkins yn rhoi gwybod mae Cyngor Gwynedd yn gwneud arolwg i fannau sydd yn achosi problemau parcio/mynediad ym Meirionnydd. Mae wedi gofyn iddynt i gynnwys y fynedfa/gyffordd yn y lleoliad yn Llanelltyd.

Eitem 6.d. Rhoddwyd y wybodaeth roedd BDO ei angen yn 14/7/2017.

Eitem 6.d. Llythyr ateb (4/8/2017) oddi wrth Welsh Council Audits. Maent yn amodi ein harchwiliad blynyddol. Maent yn nodi:

1. Nid oeddem wedi cofnodi ein bod wedi derbyn y Cod Ymddygiad yn ystod flwyddyn yr archwiliad h.y. 2016/2017.

2. Nid oedd yr RFO (y Clerc) wedi ardystio y Ffurflen Flynyddol cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 12, 2017

Rhodddwyd gwybod iddynt (11/8/2017) nid ydym eisiau trafod y mater ymhellach (fel maent yn awgrymu). Rhodddwyd gwybod iddynt hefyd ein bod wedi nodi y materion codwyd o'r Archwiliad.

Eitem 7.b. O'r archwiliad penderfynwyd clirio y gordyfiant sy'n tyfu ar dop wal y fynwent, y wal sy'n dilyn y ffordd i Tan Lan. Penderfynwyd hefyd gofyn i Meurig Ashton i wneud y gwaith.

**5. Materion Ariannol**

a. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf 2017: £7,899.27.

b. Bil (11 Awst 2016) am £147.71 oddi wrth Dŵr Cymru at Doiledau Cyhoeddus Bontddu am y cyfnod 15 Chwefror 2017 – 10 Awst 2017. Mae'n cael ei dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. (Llynedd roedd y gost yn £111.93).

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Siec am £1,412.50 oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at Lilian June Palmer – claddedigaeth cyntaf £650 + hawl claddu £480 = £1,130 + 25% = £1,412.50.

ch. Rhodddwyd cais (29/8/2017) i HMRC am ad-daliad TAW, £185.55, am y cyfnod 2014-2015, 2015-2016 a 2016-2017.

d. Galwad ffôn (8/8/2017) oddi wrth Swyddog Dŵr Cymru yn rhoi gwybod bod dŵr yn gollwng yn Toiledau Bontddu. Rhodddwyd gwybod i Mr Trebor Davies i ymchwilio y nam ac ei drwsio.

Llythyr (18/8/2017) oddi wrth Janet Edwards yn rhoi gwybod bod darn y Dynion o'r Toiledau yn gywilyddus o fudr (mae gan Janet syniad pwy sy'n gyfrifol ac am gael gair gyda'r person) ac mae tipyn o ddŵr ar lawr darn y Merched.

Bil (26/8/2017) am £101.52 oddi wrth Trebor Davies am drwsio toiled y merched yn Toiledau Bontddu. Mae llawr y toiledau yn wlyb ac mae'n awgrymu fe all hyn fod oherwydd dŵr yn rhedeg o'r ffordd i'r adeilad.

Penderfynwyd talu'r bil.

Llythyr (1/9/2017) oddi wrth Janet Edwards yn rhoi gwybod bod pethau yn well o lawer yn y Toiledau.

Llythyr (4/9/2017) oddi wrth Janet yn dweud bod dŵr yn y toiledau (mae am gadw llygad ar sefyllfa) .

dd. Balans yn y banc ar 29 Awst 2017: £9,141.06.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 12, 2017

e. Bil (7/8/2016) am £1,380.00 oddi wrth Mr I.W. Thompson am dorri llwybrau cyhoeddus Llanelltyd. (Llynedd roedd y bil am £1,260.00)

Penderfynwyd talu'r bil.

Derbyniwyd llythyr (12/8/2017) oddi wrth Mr B. Lawson yn gwerthfawrogi y gwaith sy'n cael ei wneud i gadw'r llwybrau yn addas i'w cerdded.

f. Bil (6/9/2017) am £134.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at gostau etholiad mis Mai 2017. Mae'r costau tuag at Swyddog Canlyniadau (£75.00), Cymorth Clerigol (£32.00) a Pac Enwebu (27.00).

Penderfynwyd talu'r bil.

g. Llythyr (7/9/2017) oddi wrth BDO, archwiliwr allanol. Amgau mae'r Ffurflen Flynyddol sydd wedi cael ei derbyn a chymeradwyo. Hefyd amgau mae argymhellion dylid eu dilyn:

Mae angen:

i. cyflwyno'r Ffurflen Flynyddol i'r cyngor a'i fod yn cael ei gymeradwyo a'i dderbyn gan y cyngor.

Cafodd y Ffurflen Flynyddol ei gymeradwyo a'i dderbyn gan y Cyngor.

ii. rhoi gwybod i'r cyngor materion sy'n codi, a dylid cynyrchu cynllun gweithredu i nodi sut y bydd y materion yn cael eu trin. Materion codwyd:

Cod Ymddygiad. Nid oedd y Cod wedi cael ei gofnodi yn ystod 2016/17 ac mae angen gwneud cyn gynted â phosibl.

Mae'r Cod wedi cael ei gofnodi yn ein cyfarfod Gorffennaf 11, 2017.

Cofrestr Asedau. Nid oes gan y cyngor gofrestr asedau.

Mae gan y cyngor gofrestr asedau.

Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth (blwch 14 yn y Ffurflen) Mi ddylai'r ateb yn y blwch fod yn 'Na'.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEDI 12, 2017

Materion bach. Newidiwyd ffigwr y Ffurflen Flynyddol am 2016 ac ni chaniateir hyn.

Newidiwyd y ffigwr oherwydd gwybodaeth ein hyswariant ar werth ein hasedau.

Asedau sefydlog.

Mae'r wybodaeth gan ein hyswariant yn gwneud hi'n anodd penderfynu gwerth ein hasedau. Mae disgwyl bydd y wybodaeth yn glir gan ein hyswariant newydd

Mae'r Cyngor wedi nodi y materion cafwyd gan BDO.

Amgaw hefyd mae Rhybudd o ganlyniad archwiliad (i'w arddangos cyn 30/9/2017) a ffurflen Arolwg bodlonrwydd yr archwiliad.

Penderfynwyd rhoi y Rhybudd (Cymraeg a Saesneg) ar wefan y Cyngor.

## **6. Mynwent Llanelltyd**

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (18/7/2017) gyda canlyniadau o'r cyfarfodydd blynyddol cafwyd yn ddiweddar rhwng yr Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod a chynrychiolwyr o'r Cynghorau Cymuned. Cafwyd cyfarfod yn Coed y Brenin, Aberdyfi a Plas y Brenin.

b. Ceisiadau cynllunio:

1. NP5/65/81A Amnewid garej. Winona, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (3/8/2017).

2. NP5/65/343A. Cais i ddiwygio Amodau Rhif 2 & 3 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/343 dyddiedig 06/12/2016 i newid deunyddiau waliau allanol o lechi i cladin pren. Heddwch, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (3/8/2017).

3. NP/5/65/T328B. Adeiladu ystafell ardd ochr yn lle estyniad deulawr eisoes wedi ei ganiatau. Heulfryn, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (9/8/2017).

## **8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (11/7/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda Gorchymyn yn rhoi gwybod bydd Pont Hendre, Bontddu ar gau o 21/8/2017 am 30 diwrnod. Mae hyn at sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod cyfnod gwaith dymchwel ac ail-adeiladu'r bont sydd yn anniogel.

Llythyr (14/08/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda Ail Orchymyn am Pont Hendre, Bontddu fydd ar gau o 21/8/2017 am 30 diwrnod.

b. Llythyr (28/7/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith adnewyddu Pont Hendref sydd wrth ymyl Tyn Lon Isaf yn cael ei wneud mis Awst, 2017.

c. Llythyr (17/7/2017) oddi wrth YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy), Cyngor Gwynedd, yn amgáu copi o adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru a baratowyd dan adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, 2010 am y llifogydd yn Dolfawr, Llanelltyd yn ystod Rhagfyr 2015.

ch. Llythyr (27/7/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi manylion am y Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar ddydd Sadwrn, 30ain Medi, 2017.

Bydd Elfed ap Gomer yn bresennol yn y Cynhadledd. Penderfynwyd talu £90, ffi y Cynhadledd.

d. Llythyr (15/8/2017) oddi Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Dealltwriaeth o'r Cyngor yn Canolfan Hen Blas, Bala ar ddydd Mercher, Medi 13, 2017 am 6.30yh.

Llythyr (11/9/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod y cwrs wedi ei ganslo oherwydd diffyg rhifau. Roedd Elfed ap Gomer i fod ar y cwrs.

dd. Llythyr (24/8/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith gosod arwyddion lwybrau wrth Gallt yr Heddwch.

e. Llythyr (1/9/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod mae grant o £5,000 ar gael i gynghorau Cymuned a Thref sydd am gyd-weithio ar brosiectau sydd wedi cael eu hystyried.

f. Llythyr (4/9/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Medi 26, 2017 am 7.00yh. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o Brifysgol Betsi Cadwaladr. Amgaw mae Agenda, a Chofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd Mehefin 21, 2017.

ff. Llythyr (5/9/2017) oddi wrth Arfon Hughes ynglŷn cyfarfod cyhoeddus i sefydlu papur newydd Y Dydd yn yr ardal. Bydd y cyfarfod nos Fercher, Medi 13, 2017 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau.

### **9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

Mae'r gwaith ar Ysgol Llanelltyd bron wedi cael ei gwblhau. Mae gan yr ysgol rheolau sydd yn ymwneud a rhieni a cheir.

### **10. Materion Brys**

- a. Diolchwyd Elfed ap Gomer am baratoi polisiau'r Cyngor.
- b. Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Meurig Ashton iddo lanhau ffenestri y tair Lloches Bws yn y gymuned; mae dwy yn Llanelltyd ac un yn Bontddu. Hefyd tocio gordyfiant sydd yng nghefn y Lloches Bws sydd ar y gyffordd ar ffordd A496 i Taicynhaef.
- c. Mae Carwyn Evans am symud yr hysbysfwrdd yn Bontddu i le mwy addas. Yn ei leoliad presennol nid yw gyrwyr yn medru gweld y ffordd yn glir.
- ch. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen archwilio ffordd Taicynhaef oherwydd mae ei gyflwr yn dirywio.
- d. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau ynglŷn â:
  1. parcio ceir ar ffordd sy'n mynd heibio Swyn y Nant, Bontddu. Mae'r ceir yn gwneud hi'n amhosib i gerbydau argyfwng pasio os bydd angen.
  2. dŵr sy'n sefyll ar y ffordd rhwng cylchffordd Llanelltyd a bont dros Afon Mawddach.
  3. chynllun oedd gan Comisiwn Coedwigaeth Cymru i dorri coed yn ardal Llanelltyd.

O cofnodion Tachwedd 2009:

Roedd Mr A. Thomas, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn bresennol yn y cyfarfod.

Rhoddodd adroddiad beth yw cynllun Comisiwn Coedwigaeth Cymru i adeiladu ffordd newydd o Gallt yr Heddwch i Cefn Coch er mwyn symud coed. Derbyniwyd map a disgrifiad o'r cynllun. Bydd rhan cyntaf o'r ffordd, sef o Gallt yr Heddwch i'r bont cyntaf, yn cael ei wneud cyn mis Ebrill a'r gweddill wedi Ebrill.

Roedd y Cyngor yn fodlon gyda'r cynllun.

Hwyrach bydd rhaid y cynllun cael ei roi i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am sylwadau.

-----